

Dave Street
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Dave Street,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19. Credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- gweithgareddau â ffocws – gwasanaethau oedolion, Ionawr 2020
- gweithgareddau â ffocws – gwasanaethau plant, Chwefror 2020
- gwaith ymgysylltu ag oedolion hŷn a'u gofalmwr – mis Medi 2019
- cyfarfodydd penaethiaid gwasanaethau
- cyfarfod herio – gwaith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn – mis Hydref 2019

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael budd o dîm sefydlog a phrofiadol o uwch-reolwyr. Mae'r gwasanaethau oedolion a phlant yn cael cymorth gwleidyddol a chorfforaethol ac mae dealltwriaeth a rennir o'r cyfeiriad a'r ysgogiad sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn gwella canlyniadau i bobl.

Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i weithio'n galed wrth roi Deddf 2014 ar waith, yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol ac arbedion cyllidebau er mwyn ail-lunio ei wasanaethau. Mae cynlluniau uchelgeisiol yr awdurdod lleol yn nodi ei ymrwymiad i wella llesiant ac annibyniaeth pobl. Mae cydnabyddiaeth glir bod angen dull gweithredu systemau cyfan, gan weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth, cymunedau lleol, asiantaethau partner ac ar draws gwasanaethau plant ac oedolion, er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau.

Caiff pobl hŷn a'u gofalmwr fudd o fentrau sy'n hybu eu llesiant a'u hannibyniaeth. Cawsom adborth cadarnhaol gan unigolion drwy ein gweithgareddau ymgysylltu ynglŷn â'r gwahaniaeth sylweddol y mae'r mentrau hyn wedi'i wneud, yn lleihau ynysu cymdeithasol a hybu annibyniaeth mewn cynlluniau gofal ychwanegol lleol.

Gwnaethom ymgymryd â gweithgaredd â ffocws ym maes gwasanaethau oedolion a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ddiogelu. Gwnaethom nodi cryfderau megis bod llais a dymuniadau'r unigolyn wedi cael eu hymgorffori'n effeithiol yn y broses a'r ymarfer. Gwelsom dystiolaeth o waith amlasiantaeth cadarnhaol gyda goruchwyliaeth effeithiol a chefnogol gan y rheolwyr a rhesymeg clir dros wneud penderfyniadau. Gwelsom y ffordd yr oedd ymarferwyr yn rhoi trefniadau amddiffyn ar waith ar unwaith er mwyn cadw unigolion sy'n agored i niwed yn ddiogel rhag y risg o niwed. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ei gyfrifoldebau fel rhiant corfforaethol â'i bartneriaid, ei randdeiliaid a'i gyfarwyddiaethau, gan ddeall y problemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu gydag ymrwymiad clir i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ac sy'n gadael gofal.

Mae gan yr awdurdod lleol boblogaeth cymharol sefydlog o blant sy'n derbyn gofal. Ar gyfer y bobl ifanc mwyaf cymhleth a heriol, mae'r gwaith o ddatblygu cartrefi preswyl i blant yn yr awdurdod lleol yn mynd rhagddo, gyda chais i gofrestru ail gartref a chynlluniau i ddatblygu trydydd cartref erbyn diwedd 2020. Nod y fenter hon yw lleihau'r angen i leoli plant mewn darpariaethau preswyl costus y tu allan i'r awdurdod lleol.

Gwelsom fod dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar gryfderau yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfodydd grŵp teulu a grwpiau craidd. Roedd hyn yn anodd i bartneriaid amlasiantaethol i gychwyn, ond maent yn gallu gweld y buddiannau ar gyfer y plant a'u teuluoedd. Ceir tystiolaeth o ganlyniadau drwy ddefnyddio "adnoddau cynnydd" ar bob cyfnod allweddol yn nhaith person ifanc.

Y gwasanaethau plant sy'n gyfrifol am reoli trefniadau diogelu plant ac oedolion. Mae hyn wedi gwella capasiti a gwydnwch drwy gydweithio ar draws disgyblaethau.

Pobl

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili weithlu sefydlog a medrus o hyd, ac mae llawer o'r staff wedi gweithio i'r awdurdod lleol ers nifer o flynyddoedd. Yn ystod gweithgareddau â ffocws, dywedodd y staff wrthym am y cymorth proffesiynol cadarnhaol a geir mewn timau gan eu rheolwyr llinell a'u huwch-reolwyr.

Mae llawer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn ei chael hi'n anodd recriwtio mewn rhai meysydd o'r gweithlu gofal cymdeithasol o hyd. Mae mentrau llwyddiannus, gan gynnwys adolygu'r taliad atodol ar sail y farchnad ar gyfer swyddi allweddol a chyflwyno pecyn cydnabyddiaeth gwell i ofalwyr maeth, wedi hybu recriwtio mewn swyddi sy'n anodd eu llenwi.

Mae'r awdurdod lleol yn gwbl ymrwymedig i gynnwys trigolion yn y gwaith o lywio gwasanaethau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi cynnal nifer o ymgynghoriadau mewn perthynas ag adolygu a datblygu gwasanaethau, a chafodd 19 o arolygon eu hanfon allan, pump ar gyfer gwasanaethau oedolion ac 14 ar gyfer gwasanaethau plant. Yn ogystal â hyn, mae pobl ifanc wedi bod yn rhan o waith Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru o werthuso lleoliadau.

Mae'r awdurdod lleol wedi nodi'r anhawster o ran clywed lleisiau pobl ifanc yn yr ystod oedran 13 oed a hŷn. Gwnaed gwaith ymgysylltu, er enghraifft cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng pobl ifanc a swyddogion adolygu annibynnol lle cafodd dogfennaeth ei hadolygu a'i rhoi ar-lein, ar ôl cael barn pobl ifanc. Mae'r awdurdod yn ystyried y maes hwn yn her a bydd yn parhau i ddatblygu dulliau creadigol o gasglu barn plant a theuluoedd am eu profiadau.

Gwnaethom nodi bod effaith hyfforddiant pob aelod o'r staff staff ar sgysiau "Yr Hyn sy'n Bwysig" wedi gwella ymarfer, gan sicrhau canlyniadau gwell i oedolion a phlant. Dywedodd y staff fod eu hymarfer wedi newid a'u bod wedi rhannu eu profiad o hyfforddiant â chydweithwyr.

Mae newidiadau sylweddol i ddogfennaeth yn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru wedi arwain at gofnodion sydd wedi'u harwain gan naratif agored. Gwelsom dystiolaeth o weithwyr cymdeithasol yn defnyddio sgysiau sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wrth weithio â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a theuluoedd i hybu eu dymuniadau a'u teimladau. Trafododd gweithwyr cymdeithasol Gwasanaethau Plant y ffordd y maent bellach yn defnyddio'r model risg ac yn "cynnal y risg", gan lunio cynlluniau gofal a chymorth a symud i ffwrdd o gytundebau ysgrifenedig â theuluoedd er mwyn datblygu cynlluniau diogelwch â rennir.

Dangosodd cyfweiliadau yn ystod gweithgaredd â ffocws gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal bod trefniadau ymgysylltu cadarnhaol ar waith â'u cynorthwyydd personol, gwasanaethau ieuencid, tai ac asiantaethau partner. Cafodd y tîm 16+ ei ganmol am fabwysiadu dull gweithredu hyblyg, gan fod yn ymatebol a mynd gam ymhellach er mwyn sicrhau bod budd pennaf y person ifanc wrth wraidd ei ymarfer.

Yn ystod y gweithgaredd â ffocws i oedolion, gwelsom dystiolaeth o asesiadau Deddf Galluedd Meddyliol da yn cael eu cynnal gan weithwyr cymdeithasol lle nad oedd gan bobl y galluedd. Roedd yr asesiadau yn rhoi dealltwriaeth briodol o'r materion a oedd o bwys iddynt ac yn sicrhau bod penderfyniadau er budd pennaf y bobl yn cael eu gwneud yn briodol. Cynhaliodd gweithwyr cymdeithasol asesiadau cadarn a oedd yn cynrychioli sefyllfa'r unigolyn yn gywir.

Gwelsom dystiolaeth yn ystod gweithgaredd â ffocws i oedolion fod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd partneriaeth rhanbarthol wedi gweithio ar gytundeb partneriaeth ar gyfer eiriolaeth ffurfiol gan ddatblygu cynnig ehangach Gwent.

Mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull creadigol o geisio recriwtio gweithwyr gofal cartref drwy drefnu digwyddiad recriwtio te a chacen a arweiniodd at 30 o bobl yn cael eu cyfweid. Mae'r gwaith o gofrestru gweithwyr gofal cartref wedi cael ei hybu gyda staff yn mynychu gweithdai wedi'u cynllunio â Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gweithwyr sy'n ymgymryd â'r broses gofrestru. Mae hyn wedi cynnwys staff byw â chymorth. Cyflwynwyd cais i'r Gronfa Gofal Canolradd Rhanbarthol er mwyn talu ffi cofrestru pob aelod o staff y sector annibynnol fel cymhelliant i gofrestru.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Mae atal yn rhan gynhenid o fusnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi nodi'r buddion hirdymor i unigolion a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn yr agenda atal. Mae cydweithio yn rhan gynhenid o'r agenda hon, ac mae tystiolaeth o waith partneriaeth mewnol ac allanol gydag asiantaethau yn hollbwysig o ran datblygu a darparu gwasanaethau.

Yn y gwasanaethau i oedolion, gwelsom wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â'r tîm contractio a chomisiynu a'r swyddog sicrhau ansawdd a gwella. Drwy nodi themâu diogelu mewn perthynas â gwasanaethau'r darparwr ac ymgymryd ag archwiliadau thematig, gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad ymarfer i wella diogelwch a llesiant defnyddwyr gwasanaeth.

Un o'r prif blaenoriaethau oedd rhoi'r strategaeth lleihau diogel ar waith mewn perthynas â phlant sydd wedi dechrau derbyn gofal. Gwnaed gwaith drwy ddefnyddio cyllid o'r Gronfa Gofal Canolradd ym maes gwasanaethau cymorth cynnar ac atal er mwyn atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i'r system derbyn gofal. Defnyddir adnoddau ychwanegol ar gyfer

cyfarfodydd grwpiau teulu a seicolegydd ychwanegol yn y Tîm o Amgylch y Teulu hefyd i atal pobl ifanc rhag cael eu derbyn i'r system ofal. Mae'r gwasanaeth maethu wedi ehangu ei wasanaethau cymorth i gefnogi lleoliadau teulu a ffrindiau drwy weithio gyda Fy Nhîm Cymorth sy'n cynnig cymorth ychwanegol gan seicolegydd gyda lleoliadau o'r fath er mwyn atal lleoliadau rhag chwalu.

Partneriaeth

Dywedwyd wrthym fod y grant trawsnewid wedi cael ei defnyddio i ddatblygu Rhwydweithiau Llesiant Integredig yng Ngogledd Caerffili a Chymunedau Tosturiol Blaenau Gwent. Mae'r gwasanaeth iechyd wedi cyflogi 6 cysylltwr cymunedol i weithio mewn meddygfeydd i gefnogi pobl sydd mewn perygl o deimlo'n unig ac yn ynysig, yn ogystal â chefnogi pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae cyllid wedi'i nodi ar gyfer yr 18 mis nesaf i ddatblygu gwaith Hyrwyddwyr Cymunedol a'u rôl yn y tîm amlddisgyblaethol.

Ymysg y meysydd cadarnhaol eraill o weithio ar y cyd mae Prosiect Gofal Gwell Gwent Gyfan, sef enghraifft o waith a wneir yn rhanbarthol gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, gan ystyried yr holl alwadau dwbl gyda'r nod o ryddhau mwy o oriau gofal i'r system. Bydd uwch-ymarferydd yn asesu pecynnau gofal, yn ystyried y defnydd o gyfarpar, yn hyfforddi staff i symud a thrin unigolion yn ddiogel. Nod Cynllun Cysylltu Bywydau De-ddwyrain Cymru yw datblygu mwy o leoliadau gyda theuluoedd er mwyn lleihau'r angen i bobl gael eu derbyn i'r ysbyty gyda phroblemau iechyd meddwl.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad.

Cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod ganddo amrywiaeth o systemau ar waith i atal lleoliad rhag chwalu o bosibl a sicrhau sefydlogrwydd, gan ganolbwyntio ar ddysgu gwersi a llywio ymarfer

Partneriaethau

Mae'r gefnogaeth wleidyddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn gryf o hyd. Gall uwch-swyddogion ddangos y ffordd y mae'r cysylltiadau rhwng y cyfarwyddiaethau gwahanol yn cyfrannu at gefnogi gwaith y gwasanaethau cymdeithasol ledled yr awdurdodau lleol. Dywedodd Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod eu rolau yn rhai cefnogol gyda heriau priodol, gan fabwysiadu'r amgylchedd cywir i dîm yr uwch-reolwyr er mwyn iddo gyflawni ei rôl yn llwyddiannus.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cyfrannu'n rhagweithiol at y byrddau rhanbarthol ac yn cymryd rhan mewn is-grwpiau a phrosiectau cydweithio. Mae hyn wedi arwain at gwblhau a chymeradwyo cytundeb adran 33 er mwyn sicrhau bod cyllid cyfun yn cael ei neilltuo ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn.

Mae trefniadau partneriaeth ar lefel ranbarthol a lleol yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu. Mae'r model 'Cartref yn Gyntaf' rhanbarthol yn Ysbyty Brenhinol Gwent yn enghraifft o hyn yn cael ei roi ar waith. Mae gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y caiff pobl eu sgrinio gan 'asesydd dibynadwy', gan sicrhau a chefnogi'r broses o ryddhau pobl o'r ysbyty yn gynnar, gydag asesiadau pellach yn cael eu cynnal yn y cartref.

Gwelsom dystiolaeth o gydweithio da ar achosion cymhleth rhwng y gwasanaethau plant a gwasanaethau asiantaethau arbenigol megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, Gwasanaethau Troseddwr Ifanc, Barnardo's a'r Heddlu, gyda threfniadau rheoli risgiau a rhannu gwybodaeth er budd pennaf y person ifanc wedi'u hymgorffori'n effeithiol.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â'r cyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lou Bushell-Bauers', with a stylized flourish at the end.

Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn